



Deialog am Ddiwylliant Gwerthuso Japan a Chymru

Erthygl Estyn i Fyd Ymchwil ar gyfer ASPE (Association for the Study of Primary Education)

Williamson-Dicken, M., Blackmore, R., Childs, D., Phillips, N., Powles, A., Soper, C. a Stokes, M. (2025)

Crynodeb

Mae'r papur hwn yn cymharu fframwaith gwerthuso Tokyo a arweinir gan ysgolion, fel yr arweinir gan MEXT (Ministry of Education, Culture, Sports, Science and Technology) yn Japan, â model arolygu diwygiedig Estyn yng Nghymru ar gyfer 2024. Mae'n tynnu ar ymchwil o'r ddesg ynghyd â nodiadau a wnaed yn ystod gwaith maes gan arbenigwyr ar drochi'r Gymraeg ar ymweliad wyth niwrnod ag ysgolion Tokyo. Mae hefyd yn archwilio sut y mae Tokyo yn gwerthuso ansawdd addysg drochi, yn asesu deilliannau dysgwyr, yn trefnu dolenni adborth a dysgu proffesiynol, ac yn ffeindio'i ffordd drwy'r tensiwn rhwng safoni ar lefel genedlaethol a hyblygrwydd sy'n benodol i raglenni. Trwy gyferbynnu'r arferion hyn â chylch arolygu allanol Estyn, sydd wedi'i drefnu o amgylch addysgu a dysgu, lles, gofal, cymorth ac arweiniad, ac arwain a gwella, mae'r dadansoddiad yn nodi cydgyfeiriadau a gwahaniaethau sy'n awgrymu addasiadau ymarferol ar gyfer addysg drochi'r Gymraeg. Yn benodol, mae'r papur yn cynnig y gallai lleoliadau cyfrwng Gymraeg ddyfnhau eu diwylliant o hunanwerthuso, ffurfioli mecanweithiau ar gyfer adborth gan ddysgwyr, treialu astudio gwersi yn null Japan, integreiddio meincnodau CEFR i asesu lleol a gwahodd adolygiad allanol risg-isel i atgyfnerthu prosesau atebolrwydd Estyn.

Cyflwyniad

Mae systemau addysg ar draws y byd yn ymdrechu i sicrhau cydbwysedd rhwng atebolrwydd, twf proffesiynol a'r gallu i ymateb i gyd-destunau lleol. Mae rhaglenni trochi iaith yn cyflwyno heriau penodol oherwydd bod yn rhaid i ysgolion sicrhau bod dysgwyr yn datblygu hyfedredd lefel-uchel mewn ail iaith fel y gallant gael mynediad cyfartal i'r cwricwlwm. Ym mis Hydref 2025, treuliodd dirprwyaeth o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, a oedd yn cynnwys uwch-swyddogion, pennaeth, arbenigwyr ar drochi a chynrychiolwyr cyrff llywodraethu, wyth niwrnod yn Tokyo yn arsylwi ar ddarpariaeth drochi ac yn dadansoddi diwylliant gwerthuso'r ddinas. Datgelodd eu hadroddiad fodel wedi'i adeiladu ar hunan-adolygiad blynyddol dan arweiniad ysgolion, cyhoeddi canfyddiadau mewn ffordd dryloyw a dilysu gan baneli cymunedol, a gosodwyd hyn yn erbyn system arolygu allanol Cymru gan Estyn.

Ers dechrau'r 2000au, mae Japan wedi symud o adolygiadau mewnol anffurfiol i system strwythuredig o hunanwerthuso sy'n cael ei osod yn fandadol gan bolisi cenedlaethol. Mae Canllawiau Gwerthuso Ysgolion 2006 a diwygiad 2007 i'r Ddeddf Addysg Ysgolion yn ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol sefydlu targedau clir, cynnal hunanwerthusiadau blynyddol, cyhoeddi adroddiadau a gweithredu mesurau ar gyfer gwella. Mae paneli allanol lleol o rieni, aelodau o'r gymuned ac arbenigwyr academiaidd yn dilysu hunanasesiad pob ysgol a thrwy hynny yn meithrin mwy o dryloywder a chyfrifoldeb a rennir dros wella ysgolion.

Yn rhaglenni trochi Tokyo, p'un a ydynt wedi'u cynllunio i roi hwb i hyfedredd yn yr iaith Saesneg ymhlith dysgwyr Japaneaidd neu i integreiddio siaradwyr nad ydynt yn frodorol i addysgu cyfrwng Japaneaidd, mae'r gwerthuso'n dibynnu ar feini prawf aml-ddimensiwn. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys integreiddio amcanion cynnwys ac iaith, mesurau deul ar gyfer cyflawniad academiaidd ac iaith, llesiant dysgwyr, strategaethau gwahaniaethu a defnydd creadigol o adnoddau cymunedol a diwylliannol. Cefnogir dysgu proffesiynol gan y jugyō kenkyū neu'r model astudio gwersi, lle mae athrawon yn cynllunio gwersi ar y cyd gydag amcanion clir, yn arsylwi ar arfer ei gilydd ac yn mireinio eu dulliau trwy gylchoedd ailadroddus o fyfyrwyr a rennir.

Mewn cymhariaeth, mae fframwaith arolygu Cymru fel y'i diwygiwyd yn 2024 wedi'i drefnu o amgylch tri maes arolygu: addysgu a dysgu; llesiant, gofal, cymorth ac arweiniad; ac arweinyddiaeth a gwelliant. Mae arolygwyr Estyn, gan gynnwys Arolygwyr Ei Mawrhydi, arolygwyr cymheiriaid ac arolygwyr llyeg, yn arsylwi ar wersi, yn cyfweld â staff, dysgwyr a rhieni, ac yn adolygu dogfennaeth cyn cyhoeddi adroddiadau naratif sy'n tynnu sylw at gryfderau a meysydd datblygu pob ysgol. Er bod ysgolion yng Nghymru yn paratoi adroddiadau hunanwerthuso, yr arolygiad allanol sy'n cario'r prif bwysau o ran gwerthuso.

Mae'r papur hwn yn archwilio pedwar cwestiwn craidd. Yn gyntaf, pa feini prawf sy'n sail i werthusiad Tokyo o ansawdd addysgu trwy drochi? Yn ail, pa ddulliau a metrigau sy'n goleuo asesiad deilliannau dysgwyr trochi? Yn drydydd, sut mae Tokyo yn trefnu ei ddolenni adborth a'i ddysgu proffesiynol i feithrin twf athrawon ac arloesi yn yr ystafell ddosbarth? Yn olaf, sut mae Tokyo yn cysoni safoni cenedlaethol ag anghenion unigryw rhaglenni trochi? Trwy fapio arferion Tokyo yn erbyn fframwaith Estyn, mae'r papur yn nodi addasiadau a allai gryfhau addysg drochi yn y Gymraeg a meithrin diwylliant o hunan-wella parhaus dan arweiniad ysgolion.

Adolygiad Llenyddiaeth

Dechreuodd y newid yn Japan tuag at ddiwylliant gwerthuso strwythuredig dan arweiniad ysgolion yn gynnar yn y 2000au yn rhan o ddiwygiadau ehangach gyda'r nod o wella atebolrwydd datganoledig a sicrhau ansawdd. Roedd Canllawiau Gwerthuso Ysgolion 2006 a gyhoeddwyd gan MEXT yn darparu

dangosyddion enghreifftiol ar gyfer gwerthuso'r cwricwlwm, addysgeg, cymorth i ddysgwyr, diogelwch ac ymgysylltu â'r gymuned. Flwyddyn yn ddiweddarach diwygiwyd y Ddeddf Addysg Ysgolion i gynnwys hunanwerthusiadau blynyddol gorfodol a mesurau gwella ar gyfer pob ysgol. Mae ysgolheigion wedi disgrifio'r trawsnewidiad hwn fel cyflwyno model gwerthuso ar gyfer y wladwriaeth lle mae ysgolion eu hunain yn cymryd prif gyfrifoldeb am asesu a gwella'u perfformiad yn hytrach na dibynnu ar arolygiadau allanol yn unig.

Mae addysg drochi yn ychwanegu cymhlethdod at yr her werthuso hon oherwydd bod rhaid mesur cyrhaeddiad academiaidd, hyfedredd iaith ac integreiddio diwylliannol gyda'i gilydd. Mae Lee a Niiya (2021) wedi pwysleisio pwysigrwydd asesiad hyfedredd iaith cadarn sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR) i gefnogi integreiddio ymfudwyr a thracio cynnydd gyda throchi. Yn yr un modd, mae Bil Cymraeg mewn Addysg Cymru (2025) yn ymateb i'r angen hwn drwy orfodi meincnodau CEFR ar gyfer asesu iaith Gymraeg a Saesneg mewn lleoliadau dwyieithog. Disgwylir i hyn fod yn ei le erbyn 2030.

Mae dysgu proffesiynol yn sail i werthuso a gwella effeithiol. Mae'r model jugyō kenkyū neu'r model astudio gwersi yn cynnwys timau athrawon sy'n cynllunio gwers ymchwil ar y cyd, yn arsylwi ar ei chyflwyno ac yn dadansoddi trwy fyfyrïo er mwyn mireinio ymarfer. Mae'r dull hwn yn meithrin deialog broffesiynol ddwfn, datrys problemau ar y cyd ac arloesi cynyddol. Yng Nghymru, mae cymunedau dysgu proffesiynol yn bodoli ac mae systemau fel dysgu proffesiynol triawd yn cael eu defnyddio mewn rhai lleoliadau, ond mae arferion astudio gwersi systematig wedi eu sefydlu i raddau lawer yn llai, sy'n dangos cyfle clir ar gyfer addasu traws-ddiwylliannol.

Mae astudiaethau achos empirig yn dangos effeithiolrwydd gwerthuso integredig a dysgu proffesiynol cydweithredol mewn cyd-destunau trochi. Canfu Shima (2015) wrth astudio rhaglen drochi Saesneg yn Shizuoka fod cyfuno Dysgu Integredig Cynnwys ac iaith gydag adolygiad parhaus gan gymheiriaid wedi arwain at fuddion sylweddol wrth feistrolïr 8pwnc a mewn hyfedredd iaith. Adroddodd Cymdeithas Asia (2021) fod awdurdodau lleol Japan sy'n ymgysylltu â rhanddeiliaid cymunedol trwy baneli gwerthuso wedi sicrhau cymorth ac adnoddau cryfach ar gyfer rhaglenni mewnfydwyr a throchi. Ar yr un pryd, nododd adolygiad thematig Estyn o addysg Gymraeg (2022) amrywioldeb yn ansawdd hunanwerthuso a gwahaniaethu annigonol mewn meini prawf gwerthuso, gan danlinellu'r angen am brosesau gwerthuso mwy trylwyr sy'n benodol i raglenni.

Gyda'i gilydd, mae'r llenyddiaeth hon yn tynnu sylw at bwysigrwydd diwylliannau hunanwerthuso aml-ddimensiwn cadarn wedi'u hategu gan ymchwiliad proffesiynol ar y cyd ac wedi'u dilysu gan randdeiliaid cymunedol i yrru atebolrwydd ac arloesi mewn lleoliadau dwyieithog a throchi. Mae'r adrannau canlynol yn disgrifio model Tokyo yn fanwl, yn ei gyferbynnu â fframwaith arolygu Cymru ac yn cynnig addasiadau wedi'u targedu ar gyfer addysg drochi Gymraeg.

Fframwaith Gwerthuso Tokyo

Mae system werthuso Tokyo yn canolbwyntio ar y cylch hunanwerthuso blynyddol sy'n fandadol gan MEXT. Ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd mae ysgolion yn gosod targedau clir sy'n benodol i'r cyd-destun a dynnwyd o ddangosyddion enghreifftiol MEXT. Mae'r targedau hyn yn cynnwys cwrpas y cwricwlwm, cynnydd dysgwyr, diogelwch, llesiant ac ymgysylltu â'r gymuned. Trwy gydol y flwyddyn mae ysgolion yn casglu data meintiol ac ansoddol yn erbyn y targedau hyn ac yn llunio adroddiad hunanwerthuso. Mae'r adroddiad wedyn yn cael ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

Mae paneli allanol lleol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned ac weithiau arbenigwyr academiaidd yn adolygu adroddiad hunanwerthuso pob ysgol. Mae aelodau'r panel yn cynnal ymweliadau safle, yn cyfweld â staff, dysgwyr a rhieni a naill ai'n dilysu canfyddiadau'r ysgol neu'n eu herio. Mae eu hadborth wrt gynghori yn cael ei gofnodi'n ffurfiol a'i integreiddio i gynllun gwella'r ysgol, gan feithrin perchnogaeth ar y cyd o ddatblygiad yr ysgol a sicrhau bod hunanwerthuso yn dal i gyd-fynd â disgwyliadau'r gymuned.

O fewn y fframwaith hwn a arweinir gan yr ysgol ac a ddilysir gan y gymuned, mae ansawdd addysgu trochi yn cael ei asesu yn erbyn meini prawf sy'n ymestyn safonau addysgu cyffredinol MEXT. Yn gyntaf, mae gwerthuswyr yn craffu ar integreiddio'r cwricwlwm i gadarnhau bod amcanion gwersi yn cyd-fynd â gofynion cynnwys pwnc a nodau datblygu iaith ar yr un pryd. Mae cynlluniau gwersi yn cael eu hadolygu i sicrhau bod athrawon yn nodi deilliannau cynnwys a thargedau hyfedredd iaith a bod yr oriau o wersi sy'n ofynnol yn cael eu cyflwyno yn yr iaith drochi. Archwilir dilyniannu gwersi i wirio dilyniant cydlynol o ran y pwnc a chymhlethdod yr iaith.

Yn ail, mae deilliannau dysgwyr yn cael eu mesur trwy asesiad deulol o berfformiad academiaidd a hyfedredd iaith. Mae ysgolion yn defnyddio profion masnachol fel EIKEN ar gyfer dosbarthiadau trochi Saesneg ochr yn ochr â chyfarwyddyd mewnol pwrpasol sy'n cyfeirio at ddisgrifyddion CEFR ar gyfer Saesneg a Japaneeg. Mae cyflawniad academiaidd mewn pynciau prif ffrwd a gyflwynir trwy'r iaith drochi yn cael ei ddadansoddi ochr yn ochr â chanlyniadau asesu iaith i roi golwg gynhwysfawr ar gynnydd pob dysgwr.

Yn drydydd, mae llais y dysgwr wedi'i ymgorffori fel maen prawf gwerthuso. Mae arolygon strwythuredig a grwpiau ffocws yn dal canfyddiadau disgyblion am ddealltwriaeth, ymgysylltu a chymorth mewn gwersi trochi. Mae'r offerynnau hyn yn annog dysgwyr i sgorio eglurder y cyfarwyddyd, addasrwydd y cyflymder ac argaeledd sgaffaldu pan fydd iaith neu gysyniadau cymhleth yn codi. Mae ysgolion yn dadansoddi'r adborth hwn i nodi meysydd i'w gwella fel cymhorthion gweledol ychwanegol neu strategaethau esboniadol amgen ac maent yn ymgorffori'r canfyddiadau yn eu cynlluniau gweithredu.

Yn bedwerydd, mae strategaethau gwahaniaethu a sgaffaldu yn cael eu gwerthuso i sicrhau bod yr addysgu yn diwallu anghenion amrywiol dysgwyr. Mae arsylwyr yn chwilio am dystiolaeth o gyfarwyddyd wedi'i bersonoli trwy ddefnyddio cymhorthion gweledol, iaith symlach i ddechreuwyr, grwpio cyfoedion ar gyfer lefelau hyfedredd cymysg a gweithgareddau ymestyn ar gyfer dysgwyr mwy medrus. Y nod yw asesu pa mor dda y mae athrawon yn addasu gofynion cynnwys ac iaith i broffil pob dysgwr.

Yn bumed, mae'r defnydd o adnoddau cymunedol a diwylliannol yn cael ei ystyried. Mae ysgolion yn dogfennu cyfranogiad cynorthwywyr sy'n siaradwyr iaith gyntaf, ymweliadau â sefydliadau diwylliannol, cydweithio â gwirfoddolwyr lleol a chyfranogiad mewn digwyddiadau cymunedol. Mae gwerthuswyr yn ystyried sut y mae adnoddau o'r fath yn cyfoethogi profiadau trochi trwy ddarparu amlygiad dilys i'r iaith a dyfnhau dealltwriaeth ddiwylliannol dysgwyr.

Mae deilliannau dysgwyr trochi yn cael eu mesur trwy gyfuniad o fesurau meintiol a dangosyddion ansoddol. Mae data meintiol yn cynnwys profion iaith safonedig, gwiriadau hyfedredd mewnol sy'n gysylltiedig â lefelau CEFR bob tymor, sgoriau academiaidd mewn pynciau craidd a chyfraddau pontio o ddosbarthiadau cymorth i leoliadau prif ffrwd. Mae mesurau ansoddol yn cynnwys arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth ar gyfranogiad dysgwyr, cofnodion naratif o ymgysylltu â gweithgareddau diwylliannol ac allgyrsiol, a chyfweliadau sy'n probio ymdeimlad o berthyn dysgwyr a'u hyder wrth ddefnyddio'r iaith drochi.

Nodwedd o broses gwerthuso deilliannau Tokyo sy'n sefyll allan yw ei phwyslais ar lwybrau twf yn hytrach na sgoriau pwynt. Mae gwerthuswyr yn tracio gwelliannau o flwyddyn i flwyddyn mewn hyfedredd iaith a chyflawniad yn y pwnc. Maent yn cydnabod y gall dysgwyr wynebu gostyngiadau dros dro yn eu perfformiad wrth iddynt addasu i gynnwys a gyflwynir mewn ail iaith ac maent yn gwerthfawrogi cynnydd parhaus yn fwy na chanlyniadau profion ynysig. Mae'r persbectif hydredol hwn yn caniatáu i ysgolion osod heriau cynnar yn eu cyd-destun a dilysu gwerth ychwanegol trochi unwaith y bydd dysgwyr yn sefydlogi ac yn rhagori ar draws meysydd academiaidd ac ieithyddol.

Mae adborth a dysgu proffesiynol yn cael eu trefnu trwy sawl mecanwaith cyd-gysylltiedig. Mae paneli allanol lleol yn darparu adroddiadau cynghori y mae arweinwyr ysgolion yn eu hintegreiddio i flaenoriaethau gwell. Mae'r system arfarnu athrawon, a weinyddir gan benaethiaid neu uwch-gydweithwyr, yn cynnwys arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth sy'n canolbwyntio ar ddefnydd iaith, gwahaniaethu ac ymgysylltu â dysgwyr, ac yna sesiynau adborth adeiladol sydd wedi'u cynllunio i gefnogi datblygiad athrawon.

Wrth wraidd dysgu proffesiynol mae'r jugyō kenkyū neu'r model astudio gwersi. Mae athrawon trochi yn cymryd rhan mewn cylchoedd rheolaidd o gynllunio ar y cyd, arsylwi a dadansoddi wrth fyfyrïo. Mae gwers ymchwil yn cael ei chyd-gynllunio gydag amcanion penodol ar gyfer cynnwys ac iaith a'i addysgu gan un athro tra bod cydweithwyr yn arsylwi. Ar ôl y wers mae cyfranogwyr yn cwrdd i ddadansoddi dealltwriaeth y dysgwr, defnydd iaith, strategaethau gwahaniaethu a gweithgareddau integreiddio diwylliannol. Trwy'r broses golegol hon mae athrawon yn nodi arferion effeithiol a meysydd i'w mireinio. Mae astudio gwersi yn ymgorffori gwelliant parhaus i arferion dyddiol ac yn galluogi athrawon i dreialu a mireinio methodolegau trochi mewn amgylchedd cefnogol.

Ar lefel system, mae MEXT yn hyrwyddo cylchoedd Cynllunio-Gwneud-Gwirio-Gweithredu ac yn dynodi ysgolion "kenshū" peilot i dreialu dulliau arloesol. Mae'r canfyddiadau o'r ysgolion peilot hyn yn cael eu lledaenu trwy weithdai datblygiad proffesiynol, cyhoeddiadau academiaidd ac ymweliadau rhwng ysgolion. Mae hyn yn sicrhau bod arferion llwyddiannus yn cael eu gweithredu ar raddfa fwy ar draws rhwydwaith Tokyo o raglenni trochi a bod gwersi a ddysgwyd mewn ysgolion model yn goleuo polisi ac ymarfer ehangach.

Her ganolog wrth werthuso'r trochi yw sicrhau cydbwysedd rhwng safoni cenedlaethol a hyblygrwydd sy'n benodol i raglenni. Mae Tokyo yn mynd i'r afael â hyn trwy drin canllawiau MEXT fel enghreifftiau nad ydynt yn rhwymo, a thrwy wahodd ysgolion i unio targedau a dangosyddion gwreiddiol sy'n adlewyrchu eu cyd-destunau unigryw. Mae'r model gwerthuso â thair lefel, sy'n cynnwys hunanwerthuso, dilysu gan banel cymunedol ac adolygiad arbenigol gan drydydd parti, sy'n ddewisol, yn cadw cysondeb mewn prosesau gwerthuso ac yn caniatáu ar yr un pryd i ysgolion trochi ychwanegu neu addasu meini prawf i adlewyrchu amcanion dwyieithog. Pan fydd dysgwyr trochi yn dangos gostyngiadau cychwynnol mewn sgoriau pwnc prif ffrwd, mae gwerthuswyr yn dehongli'r canlyniadau hyn yn eu cyd-destun trwy archwilio a yw dysgwyr yn dal i fyny gydag amser ac a yw ymyriadau yn yr ysgol wedi lliniaru unrhyw effeithiau hirdymor. I'r gwrthwyneb, pan fydd dysgwyr trochi yn cwrdd â meicnodau academiaidd craidd, neu'n rhagori arnynt, ac yn cyflawni enillion iaith sylweddol ar yr un pryd, mae gwerthuswyr yn cydnabod ac yn canmol llwyddiant holistaidd y rhaglen. Mae'r dull hyblyg hwn yn osgoi cosbi arloesi ac ar yr un pryd yn sicrhau bod safonau academiaidd sylfaenol yn parhau i gael eu cynnal.

Cymhariaeth â Fframwaith Estyn

Mae fframwaith arolygu Estyn Cymru, fel y'i diwygiwyd yn 2024, yn rhannu nod terfynol Tokyo o sicrhau addysgu a dysgu o ansawdd uchel ond mae'n cael ei weithredu trwy strwythur gwahanol iawn. Mae arolygiadau Estyn yn digwydd ar gylch aml-flwyddyn ac fe'u cynhelir gan dîmau o arolygwyr proffesiynol a lleyg. Mae'r arolygwyr hyn yn arsylwi ar wersi, yn cyfweld â staff, dysgwyr a rhieni, ac yn adolygu dogfennaeth o dan dri maes arolygu: addysgu a dysgu; llesiant, gofal, cymorth ac arweiniad; ac arwain a gwell. Mae adroddiadau'n cael eu cyhoeddi'n gyhoeddus ac yn darparu gwerthusiadau naratif o gryfderau o bwys a meysydd i'w datblygu. Mae Estyn yn osgoi rhoi graddau i grynhoi, ac mae'n gwneud hynny'n fwriadol er mwyn annog ffocws ar adborth disgrifiadol ac argymhellion wedi'u targedu.

Yn wahanol i hunanwerthusiad parhaus Tokyo, dan arweiniad ysgolion, mae model Estyn yn gosod yr awdurdod i werthuso yn gadarn yn nwylo arolygwyr allanol. Er bod ysgolion yng Nghymru yn cynhyrchu adroddiadau hunanwerthuso ac yn defnyddio'r rhain i greu cynlluniau datblygu, canfyddiadau'r arolygiaeth sy'n gyrru mandadau i wella ac atebolrwydd yn y pendraw. Nid canllawiau yn unig yw argymhellion Estyn, maent yn ffocws mandadol ar gyfer gwell. Yn Tokyo, ar y llaw arall, mae unrhyw argymhellion yn ganllawiau i arweinwyr mewn ysgolion.

Mae Estyn yn edrych yn fanylach ar lesiant a chymorth dysgwyr o dan ei ail faes arolygu. Mae arolygwyr yn archwilio llais disgyblion, mesurau diogelu, darpariaeth iechyd meddwl ac arferion cynhwysiant yn fanwl. Er bod hunanwerthusiadau Tokyo yn cynnwys agweddau ar arweiniad a diogelwch dysgwyr, nid ydynt bob tro'n mesur y sbectrwm llawn o ddangosyddion llesiant gyda'r un lefel o fanylder. I'r gwrthwyneb, mae pwyslais Tokyo ar ffrwyno adnoddau cymunedol a diwylliannol mewn rhaglenni trochi yn rhagori ar y graddau y mae fframwaith Estyn yn blaenoriaethu partneriaethau diwylliannol lleol, er gwaethaf gofyniad Estyn i werthuso sut y mae ysgolion yn hyrwyddo ethos a threftadaeth ddiwylliannol Cymru ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae perygl gyda phrosesau Tokyo sydd weithiau'n gweld rhagfarnau lleol a gwleidyddiaeth leol yn cael gormod o ffocws yn y cynlluniau datblygu.

Mae asesu iaith hefyd yn wahanol yn y ddwy system. Mae arolygwyr Estyn yn gwerthuso datblygiad y Gymraeg yn systematig ochr yn ochr â llythrennedd Saesneg ym mhob ysgol. Mae'r arfer hwn yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol o dan Cymraeg 2050 ac yn sicrhau bod addysgeg drochi yn cael ei hasesu gan arolygwyr dwyieithog. Yn Tokyo, er bod gwerthusiadau trochi yn cael eu halinio fwyfwy â disgrifyddion CEFR, mae amrywiad sylweddol ar draws wardiau o hyd. Mae'r cyferbyniad hwn yn awgrymu cyfleoedd i ni ddysgu oddi wrth ein gilydd. Gallai lleoliadau trochi'r Cymraeg fabwysiadu agweddau ar gyd-astudio gwersi Tokyo ar gyfer datblygiad proffesiynol tra gallai ysgolion Tokyo elwa o ddefnydd systematig Cymru o feincnodau CEFR mewn asesu dwyieithog.

Goblygiadau i Addysg Drochi'r Gymraeg

Mae model Tokyo yn tanlinellu gwerth ymgorffori cylchoedd hunanwerthuso aml-ddimensiwn trwyadl ar lefel ysgolion mewn ffordd sydd wedi'i dilysu gan amrywiaeth o randdeiliaid a'i hatgyfnerthu gan ddysgu proffesiynol cydweithredol. Ar gyfer lleoliadau trochi'r Gymraeg, gallai dyfnhau diwylliant o hunanwerthuso gynnwys sefydlu cylchoedd blynyddol yn arbennig ar gyfer nodau trochi, gan gasglu adborth dysgwyr am addysgeg ddwyieithog yn systematig trwy arolygon a grwpiau ffocws ac ymgysylltu â chynrychiolwyr cymunedol mewn paneli dilysu i gyd-adeiladu blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Byddai arferion o'r fath yn ategu at drefn arolygu allanol Estyn ac yn grymuso ysgolion i fynd i'r afael â heriau sy'n benodol i addysg drochi yn brydlon ac yn rhagweithiol.

Byddai sefydlu gwersi astudio tebyg i Japan yng nghyd-destunau trochi'r Gymraeg yn creu mecanwaith parhaus ar gyfer ymholiad proffesiynol. Gallai timau athrawon gyd-ddylunio gwersi ymchwil sy'n canolbwyntio ar ddatblygu geirfa, strategaethau sgaffaldu neu gymwyseddau diwylliannol, arsylwi ar arfer ei gilydd a chymryd rhan mewn dadansoddiad myfyriol i fireinio dulliau cyfarwyddyd. Byddai'r model parhaus hwn sy'n cael ei yrru gan gymheiriaid yn gwella dysgu proffesiynol y tu hwnt i natur episodig hyfforddiant mewn swydd confensiynol ac yn meithrin diwylliant o rannu cyfrifoldeb am lwyddiant trochi.

Gellid defnyddio'r defnydd systematig o ddisgrifyddion CEFR ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg sydd bellach yn fandadol mewn polisi cenedlaethol ar lefel ysgolion i dracio cynnydd dysgwyr yn fwy manwl gywir, goleuo strategaethau gwahaniaethu ac alinio arferion asesu mewnol â meini prawf gwerthuso Estyn. Yn olaf, byddai gwahodd adolygiad allanol risg isel gan arbenigwyr ar drochi neu benaethiaid â phrofiad o drochi rhwng arolygiadau ffurfiol yn cynnig adborth i alluogi datblygiad, lledaenu arfer gorau a chynnal y momentwm er mwyn gwella'n barhaus.

Argymhellion

- Cynyddu'r Pwyslais ar gyfer Ddiwylliant Hunanwerthuso Systematig
- Ffurfioli Dolenni Disgwyliad Adborth Dysgwyr i Oleuo Hunanwerthuso a Gyrru Newid
- Treialu Mecanweithiau Gwella Jygyō Kenkyū (Astudio Gwersi) Japaneaidd ar Lefel Ficro a Meso
- Treialu'r defnydd o'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR) mewn Prosesau Asesu ar lefel Ysgol (Micro a Meso) i Gyd-fynd â Gofynion Bil y Gymraeg mewn Addysg (2025)
- Arweinwyr Ysgol i Ymgorffori Persbectif Allanol Mwy Anffurfiol Heb Arolygiad Risg Uchel i Gefnogi Hunanwerthuso
- Sefydlu Agwedd fwy Cenedlaethol at Yr Hyn sydd Gyfystyr â Llwyddiant Holistaidd a Mesur hyn yn Gyson ar lefel Ficro, Meso a Macro, yn enwedig ym maes Trochi Iaith

Casgliad

Mae patrwm hunanwerthuso Tokyo yn dangos sut y gall cylchoedd adolygu blynyddol a arweinir gan ysgolion ac a ddilysir gan baneli cymunedol ac a atgyfnerthir trwy astudio gwersi ar y cyd, yrru gwelliant parhaus mewn addysg drochi. Mae ei feini prawf aml-ddimensiwn yn cynnwys integreiddio'r cwricwlwm, hyfedredd iaith, integreiddio diwylliannol a llesiant dysgwyr ac felly mae'n cynnig glasbrint holistaidd ar gyfer darpariaeth ddwyieithog. Mae fframwaith arolygu Estyn Cymru gyda'i adroddiadau naratif cyhoeddus ar draws meysydd addysgu, llesiant ac arweinyddiaeth yn sicrhau atebolrwydd tryloyw ac alinied â blaenoriaethau cenedlaethol fel Cymraeg 2050. Mae'r newid yn 2024 tuag at werthusiadau disgrifiadol heb raddau cryno yn alinio ethos Estyn ymhellach ag ymrwymiad Japan i wella yn hytrach na sancsiynau.

Byddai addysg drochi'r Gymraeg yn elwa trwy fabwysiadu agweddau allweddol ar ddull Tokyo. Byddai dyfnhau diwylliant o hunanwerthuso, ffurfioli mecanweithiau llais y dysgwr, treialu astudio gwersi gan ddefnyddio meincnodau'r CEFR ar lefel yr ysgol neu'r ganolfan a sefydlu adolygiad allanol risg isel yn cryfhau dysgu proffesiynol ac yn meithrin cymunedau dwyieithog gwydn sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Trwy gyfuno myfyrdio mewnol cadarn â mewnwelediad allanol strwythuredig, gall lleoliadau trochi'r Gymraeg sicrhau bod dysgwyr yn cyflawni rhagoriaeth academiaidd, hyfedredd dwyieithog ar lefel uchel ac yn ymgysylltu ystyrlon â'u treftadaeth ddiwylliannol.

Cyfeiriadau

Ahn, R., Shimojima, Y., Mori, H. ac Asanuma, S. (2018) 'Japan's innovative approach to professional learning', *Phi Delta Kappan*, 99(6), tt. 45–51.

Asia Society (2021) *Multilingual Education in Japan: Policy Responses to Increasing Diversity*. Efrog Newydd: Asia Society Centre for Global Education.

Central Council for Education (2017) *Report on the Vision for Education in the 21st Century: Toward the Realisation of a Curriculum Open to Society*. Tokyo: Ministry of Education, Culture, Sports, Science and Technology.

Estyn (2024) *Fframwaith arolygu ar gyfer lleoliadau addysg a hyfforddiant yng Nghymru*. Caerdydd: Estyn.

Hashimoto, A. (2018) 'Note on the characteristics of Japanese school evaluation: Seven factors obstructing successful implementation', *Japanese Journal of Evaluation Studies*, 18(2), tt. 35–54.

Katsuno, M. a Takei, T. (2008) 'School evaluation at Japanese schools: Policy intentions and practical appropriation', *London Review of Education*, 6(2), tt. 171–181.

Lee, J. a Niiya, Y. (2021) *Language Proficiency and Migrant Integration in Japan*. Tokyo: Ministry of Education, Culture, Sports, Science and Technology.

Ministry of Education, Culture, Sports, Science and Technology (MEXT) (2006) *School Evaluation Guidelines*. Tokyo: MEXT.

MEXT (2007) *School Education Law* (Erthygl 42). Tokyo: MEXT.

MEXT (2024) *Results of School Evaluation and Meta-Evaluation Studies: Trends and Challenges in Quality Assurance*. Tokyo: MEXT.

Project Tokyo (2025) *Prosiect Tokyo: Deialog am Ddiwylliant Gwerthuso Japan a Chymru*. Torfaen: Carreg Lam.

Shima, K. (2015) *Curriculum Initiative Report: The Impact of an Immersion Programme on English Language Teaching in Japan*. Kanazawa: Foreign Language Institute, Prifysgol Kanazawa.

Yomiuri Shimbun (2024) 'Writing skills among junior high students declining; urgent action needed', *Yomiuri Shimbun* (ar-lein). Ar gael ar: <https://www.yomiuri.co.jp> (Darllenwyd: 28 Hydref 2025).